Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio

Dyddiad: 6 Chwefror 2018

Rhif Union: 01824 712589

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CYNLLUNIO, DYDD MERCHER, 14 CHWEFROR 2018** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 9 - 10)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 11 - 14)

Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2018 (copi wedi'i atodi).

**CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU (EITEMAU 5 - 11) -**

**5 CAIS RHIF 01/2015/1240/PO - TIR RHWNG HEN FFORDD RHUTHUN A FFORDD NEWYDD RHUTHUN, DINBYCH** (Tudalennau 15 - 46)

Ystyried cais ar gyfer datblygu 2.1 hectar o dir at ddibenion preswyl (cais amlinellol yn cynnwys manylion mynediad) ar dir rhwng Hen Ffordd Rhuthun a Ffordd Newydd Rhuthun, Dinbych (copi yn atodedig).

**6 CAIS RHIF 09/2017/1153/PS - 2 TŶ CLWYD, CHAPEL LANE, BODFARI, DINBYCH** (Tudalennau 47 - 60)

Ystyried cais i amrywio amod 5 caniatâd cynllunio rhif 09/2017/0887 i ganiatáu i gerbydau facio yn ôl i'r lle parcio, ac arwydd cysylltiedig yn 2 Tŷ Clwyd, Chapel Lane, Bodfari, Dinbych (copi yn atodedig).

**7 CAIS RHIF 18/2017/1000/PC - TIR YN SUNNYCROFT, LLANDYRNOG, DINBYCH** (Tudalennau 61 - 82)

Ystyried cais ar gyfer newid defnydd y tir a chodi adeilad at ddibenion hwyluso adeiladu trelars cerbydol (cais ôl-syllol) ar dir yn Sunnycroft, Llandyrnog, Dinbych (copi yn atodedig).

**8 CAIS RHIF 19/2015/1228/PO - TIR GER BRYN YSGUBORIAU, LLANELIDAN RHUTHUN** (Tudalennau 83 - 100)

Ystyried cais ar gyfer codi annedd amaethyddol ar dir ger Bryn Ysguboriau, Llanelidan, Rhuthun (copi yn atodedig).

**9 CAIS RHIF 40/2017/1133/PF - REAL PETFOOD COMPANY, UNED 2, ROYAL WELCH AVENUE, BODELWYDDAN** (Tudalennau 101 - 116)

Ystyried cais ar gyfer codi estyniad i ffatri bresennol i ddarparu gofod swyddfa ychwanegol yn Real Petfood Company, Uned 2, Royal Welch Avenue, Bodelwyddan (copi yn atodedig).

**10 CAIS RHIF 43/2017/1100/PO - TIR GERLLAW LLYS YR YNADON, FFORDD FICTORIA, PRESTATYN** (Tudalennau 117 - 140)

Ystyried cais ar gyfer manylion mynediad, ymddangosiad, tirlunio, cynllun a graddfa 20 o unedau preswyl wedi eu cyflwyno yn unol ag Amod 1 ar ganiatâd cynllunio amlinellol rhif 43/2015/1241/PO (Cam 1 cais materion a gadwyd yn ôl); Manylion yr amrediad o feintiau a'r mathau o dai wedi eu cyflwyno yn unol ag amod 10 a Manylion lefelau lloriau gorffenedig yr 20 o dai a gyflwynwyd yn rhannol yn unol ag amod 11 ar dir ger Llys yr Ynadon, Victoria Road, Prestatyn (copi yn atodedig).

**11 CAIS RHIF 45/2017/1087/PF - 90 STRYD FAWR, Y RHYL** (Tudalennau 141 - 158)

Ystyried cais ar gyfer newid defnydd siop fanwerthu bresennol yn lolfa goffi gyda chyfleuster coffi parod ategol yn 90 Stryd Fawr, Y Rhyl (copi yn atodedig).

**12 ADRODDIAD ER GWYBODAETH: PENDERFYNIAD APÊL GYNLLUNIO - FFERM WYNT PANT Y MAEN, LLYN BRAN, BYLCHAU, DINBYCH** (Tudalennau 159 - 254)

Cael adroddiad gwybodaeth ar benderfyniad yr apêl gynllunio a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddatblygiad fferm wynt ar dir i'r de-orllewin o Nantglyn.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Joe Welch (Cadeirydd)
Alan James (Is-Gadeirydd)

Ellie Chard
Ann Davies
Meirick Davies
Peter Arnold Evans
Brian Jones
Huw Jones
Pat Jones
Tina Jones
Gwyneth Kensler
Christine Marston
Bob Murray
Merfyn Parry
Peter Scott
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Emrys Wynne
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned